REES, LEWIS (1710 - 1800), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: Lewis Rees
Dyddiad geni: 1710
Dyddiad marw: 1800
Priod: Esther Rees (née Penry)
Plentyn: Abraham Rees
Rhiant: Rees Edward Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ganwyd 2 Mawrth 1710, yn Glynllwydrew, Blaen Glyn Nedd, Morgannwg, mab Rees Edward Lewis, ac yr i offeiriad plwyf Penderyn. Cefnodd ei dad ar Eglwys Loegr, a magwyd y mab yn y ffydd Ymneilltuol. Addysgwyd yn ysgol Blaengwrach dan ofal Henry Davies, y gweinidog, ac yn ysgolion Joseph Simmons, Abertawe, Rice Price, Tyn-ton, ac academi Maesgwyn. Derbyniwyd ef yn aelod yn Blaengwrach, a dechreuodd bregethu yno. Ar gymhelliad Edmund Jones a'i athro, Vavasor Griffiths, aeth i gymryd gofal yr achos bychan yn y T Mawr, Llanbrynmair. Llafuriodd yn ddyfal yno, heb ei urddo, o 1734 hyd 1738. Urddwyd ef yn Blaengwrach ar 13 Ebrill 1738. Adeiladwyd yr Hen Gapel, Llanbrynmair, yn 1739. Symudodd i Maesyronnen, Brycheiniog, yn 1745; ond dychwelodd i Lanbrynmair yn 1748 megis wedi ei eneinio o'r newydd at ei waith. Gafaelodd tân y diwygiad yn ei ysbryd. Casglodd eglwys gref yn Llanbrynmair a swcro egin-ganghennau'r Hen Gapel. Ymwelodd â pharthau Gwynedd i efengylu, a dioddefodd erlid creulon. Lewis Rees a agorodd ddrws a rhoi eli penelin i Howel Harris i ddod i'r gogledd am y tro cyntaf. Yn 1759, symudodd i Tirdoncyn, Llangyfelach, Morgannwg, lle y treuliodd weddill ei oes yn fawr ei afiaith bregethu. Pregethai yn un o oedfeuon cymanfa bregethu Caerfyrddin gyda'i fab, Dr. Abraham Rees, ychydig cyn marw. Bu farw 21 Mawrth 1800.

Yr oedd yn un o bregethwyr mwyaf ei gyfnod, goddefgar ei ysbryd, llydan ei farn. Cyfunid yn ei bersonoliaeth ' synhwyrfryd doeth ' yr Hen Annibynwyr coeth a llewyrch cynnes goleuadau mawr y Diwygiad Methodistiaid. Yn ôl cofnodion y Bwrdd Cynulleidfaol derbyniai roddion blynyddol bron yn ddifwlch o 1742 hyd 1781.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

Ffynonellau

Yr Adolygydd, iii, 199-217, 480-500

Minutes of Cong. Fund Board, 1742-81

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, 20-3

Cofiant y Parch Lewis Rees gynt gweinidog yr efengyl yn Llanbrynmair, wedi hyny yn y Mynyddbach, ger Abertawy (Abertawe 1852)

Hen Gapel Llanbrynmair, 1739–1939 (1939), 33-8

R. Bennett, *Blynyddoedd cyntaf Methodistiaeth* (1909)

R. Bennett, *Methodistiaeth Trefaldwyn Uchaf, 1738–1852* (1929)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Lewis Rees

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733801

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu